

Taflen ffeithiau 14: Pan mae pethau'n digwydd

O bryd i'w gilydd, bydd pethau'n digwydd neu'n newid, a bydd angen i chi siarad â rhywun ynglŷn â beth i'w wneud.

Os nad yw eich anghenion yn cael eu bodloni:

Gall y cyngor fod â chyfrifoldeb a chamu i mewn a'ch helpu. Efallai y bydd angen gwneud adolygiad neu ailasesiad o'ch anghenion. Efallai y bydd y cyngor yn gorfod trefnu gwasanaethau am gyfnod o amser neu eich cefnogi i'ch galluogi i barhau, drwy ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Os ydych yn cynorthwyo i reoli Taliadau Uniongyrchol i rywun arall, cysylltwch â'r cyngor cyn gynted â phosibl a rhowch wybod iddynt am y newid.

Nid yw eich cynlluniau mewn argyfwng yn gweithio:

Byddwch wedi trafod cynllun am beth fydd yn digwydd os bydd eich cymhorthydd personol yn sâl, ar wyliau blynyddol neu nid yn dod i'w gwaith. Weithiau, nid yw'r cynlluniau gorau'n gweithio. Mae gan y cyngor gyfrifoldeb i gamu i mewn a'ch cynorthwyo i fodloni eich anghenion dynodedig fel y trafodwyd yn eich cynllun gofal. Os yw hyn yn digwydd, cysylltwch â Chyngor Sir y Fflint cyn gynted â phosibl.

Prynu gwasanaeth gan asiantaeth:

Gall Cyngor Sir y Fflint roi gwybodaeth i chi sy'n egluro beth y dylech ei wneud, wrth drefnu eich cefnogaeth eich hun gan asiantaeth. Os oes rhywbeth yn digwydd ac nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth gan yr asiantaeth, rhaid i chi gysylltu â nhw yn gyntaf a thrafod eich pryderon gyda nhw, gan mai chi yw'r cwsmer. Gallwch hefyd gysylltu â Chyngor Sir y Fflint i drafod eich pryderon.

Cyflogi cymorthyddion personol:

Os ydych yn cyflogi cymhorthydd personol, byddwch yn dod yn gyflogwr arnynt. Fel cyflogwr, mae'n rhaid i chi ddilyn deddfwriaeth cyflogaeth. Mae'n ofynnol i'r cyngor eich cefnogi os oes gennych unrhyw bryderon am yr unigolyn rydych yn ei gyflogi. Cysylltwch â nhw neu siaradwch â Chyngor Sir y Fflint.

Os ydych yn mynd i anawsterau:

Mae camgymeriadau'n digwydd o bryd i'w gilydd pan mae pobl yn dewis defnyddio taliad uniongyrchol. Peidiwch â phoeni, a chysylltwch â'r cyngor cyn gynted â phosibl. Gwnawn bopeth yn ein gallu i'ch cefnogi chi i ddatrys pethau.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk